# At y golygydd

Tan-y-coed
Llanbedr-y-cennin
Conwy LL32 8UU

Annwyl Olygydd,

Diddorol oedd darllen erthygl Mr Edgar Pritchard ar 'Caswallon Law Hir' yn *Y Casglwr*, rhifyn Gwanwyn 2002. Fel un sy'n byw yng nghysgod Pen-y-gaer ac hefyd yng ngolwg Conovium (Caerhun), fedra i ddim cytuno â Mr Pritchard bod Caerhun yn brif lys Rhun ap Maelgwn Gwynedd.

Yn yr ardal yma yr oedd Pen-y-gaer, yn yr Oes Haiarn, yn brif amddiffynfa neu gaer y Cymry yn y cyfnod 5-10 A.D. Saif Pen-y-gaer fel mynydd, 1,225 o droedfeddi o uchder yn gysgod Llanbedr-y-cennin. Y mae'r gaer ar y copa yn 4³/₄ o aceri, yn cynnwys pymtheg o gytiau, rhai yn ugain troedfedd ar eu traws; yn ôl yr archaelogwyr, mae'r olion ffwrnes a haearn 'slag' mewn rhai cytiau yn dangos bod y trigolion yn gwneud celfi ar gyfer rhyfel, ac hefyd i drin y tir. Er fod yr hen furiau wedi eu chwalu ar gopa Pen-y-gaer, yn ôl yr arbenigwyr bu muriau ag olion *'chevaux de frise'*, h.y. cerrig wedi'u gosod ar lethrau'r mynydd fel amddiffynfa yn erbyn y gelyn, yn rhedeg i lawr i Afon Conwy. Dyma, mae'n debyg, gaer a phrif amddiffynfa Rhun Hir.

Sefydlwyd Conovium o bridd tua 80 A.D., ac fe'i hail-adeiladwyd tua 105 i 110 A.D. o gerrig; ymadawodd y Rhufeinwyr i helpu Hadrian i amddiffyn Gogledd Lloegr tua 122 A.D. Amcan gwersyll Conovium oedd gofalu am groesi Afon Conwy yn ymyl Tal-y-cafn, ac hefyd y drafnidiaeth ar hyd y ffordd Rufeinig o Deva (Caer) i Segontium (Caernarfon) trwy Conovium dros Fwlch-y-ddeufaen i gyfeiriad Penmaenmawr.

Cysylltir Cae Rhun, mae'n debyg, o achos rhyw frwydr neu ddigwyddiad yn y gorffennol. Perswadiodd Hughes-Davies, yswain o Gaerhun, tua 1800 A.D. ei lafurwyr i gloddio yn ymyl Conovium gan ddisgwyl bod trysorau o aur ac arian yn perthyn i Rhun a'i ddilynwyr wedi'u cuddio yn y ddaear. Cafwyd hyd i darian yn perthyn i Oes Rhun wrth ymchwilio safle Conovium yn 1799, ac y mae'r darian yn yr Amgueddfa yng Nghaerdydd. Bu llawer o ymchwilio gan archaeolegwyr yn y 1930au ar safle Conovium, ac mae'r darganfyddiadau i'w gweld yn Amgueddfa Llandudno. Nid oes dim byd yn perthyn i Oes Rhun, nac unrhyw awgrym bod defnydd wedi cael ei wneud gan y Cymry o'r safle ar ôl i'r Rhufeiniaid ymadael.

Gyda llaw, Caerhun ydi'r enw cywir ar y lle. Y mae'r hanes wedi'i gymysgu braidd ar hyd y blynyddoedd gan foneddigion Caer-Rhun Hall am y rheswm ei bod yn fwy parchus o lawer i fyw mewn caer na chae.

Stan Wicklen

---

Gwên y Wawr
New Inn, Pencader
Caerfyrddin SA39 9AZ

Annwyl Olygydd,

Difyr iawn i un sy'n hanu o Bwllheli oedd cael darllen yr erthygl yn y rhifyn diwethaf ar ddinistr Capel Salem y dref. Digwyddodd y tân wyth mlynedd cyn i mi gael fy ngeni ond medraf ychwanegu dau bwt at yr hanes. Dywedodd fy mam wrthyf mai fy nhad oedd y dyn yn gwisgo cap a dillad golau ar yr ochr chwith o'r llun a dynwyd o'r tu mewn i'r capel wedi'r tân.

Yn ôl yr erthygl, cymerwyd y llosgwr ar amheuaeth i'r ddalfa ym Mhorthmadog gan y Rhingyll Jones, ac mai ef a'r Heddwas Roberts a hebryngodd y dyn i sefyll o flaen yr ynadon ym Mhwllheli. Fel mater o ddiddordeb bu'r Heddwas Roberts yn cadw'r Red Lion ym Mhorthmadog yn y flwyddyn 1948 a ganddo ef y clywais i mai ef ei hun arestiodd y troseddwr ym Mhentrefelin.

Yn gywir,
D. G. Lloyd Hughes

## Rhoddion

| | |
|---|---|
| Rhiannon Ellis, Caernarfon | £2.00 |
| Harold Williams, Cricieth | £2.50 |
| E. M. Jenkins | £3.00 |
| J. Wynne Lewis, Moelfre | £20.00 |
| Di-enw | £4.00 |
| Arwyn Thomas, Casnewydd | £2.50 |
| Eurfryn Davies, Landegfan | £12.50 |
| Elwyn Jones, Llandudno | £2.50 |
| W. E. Roberts, Caernarfon | £2.50 |
| O. Llywelyn, Llanrug | £5.00 |
| G. Prys Davies, Pontypridd | £2.50 |
| E. Williams, Nefyn | £7.50 |
| Dewi Jones, Benllech | £10.00 |
| Emyr Evans, Cheltenham | £2.50 |
| Delia Taylor | £7.50 |
| R. Geraint Gruffydd | £10.00 |
| Ted Huws, Bodedern | £25.00 |
| D. W. Thomas, Llanrug | £7.50 |
| John Roberts Williams | £10.00 |
| Wyn a Megan Roberts | £10.00 |
| Rheon Pritchard | £5.00 |

## Ar Werth

Gweithiau Maes y Plwm, arg. 1857 (Treffynnon). O ran diddordeb mae enw rhyw Robert Lewis, Ballarat (1866) arno.
£10
Cysyllter ar (01248) 723 240


CYMDEITHAS BOB OWEN

**Y DDARLITH FLYNYDDOL**

ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol, Tyddewi

Darlithydd:
**Dyfed Elis Gruffydd**

Cadeirydd:
**Dr Rhidian Griffiths**

Testun:
**Dr Henry Hicks (1837–1899)**

Fe'i cynhelir yn y Pagoda fore Iau am 12.00 o'r gloch

*Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas i ddilyn*


## Mewn Ocsiwn yn y Gaerwen

(*Parhad o dudalen 12*)

herciodd hwnnw o'r neilltu. Dim ond dau erbyn y diwedd oedd yn y ras, Glenys yn dal i ddal ati ac yn magu penderfyniad wrth yr eiliad, ynghyd â rhywun oedd wedi cyflwyno ei gynnig dros y ffôn, cynrychiolydd Adran Forwrol ryw Amgueddfa os gwir y si – eithr diffygiodd hwnnw ar y ddwy fil.

*'Are we all done on two thousand one hundred?'* holwyd. Distawrwydd fel y bedd. Neb yn symud llaw na throed. Rhag ofn! *'I'm selling them... Going...'* ac i lawr y daeth y morthwyl gydag awgrym o wên hunan fodlon yr un pryd ar wyneb yr arwerthwr parablus wrth iddo ychwanegu, *'I'm happy to record that the Gracie will today be returning home'*. O fewn yr awr, yn sicr ddigon, teg edrych tuag adref oedd ei hanes.

Ar y ffordd bu cryn ddyfalu yn ein plith ym mha gilfach a glan tybed y bu'r luniau yn llochesu'r holl flynyddoedd cyn dod eilwaith i'r golwg a'u cael eu hunain wedi eu bwrw ar sugn draeth peryglus ocsiwn Morgan Evans? Yr unig wybodaeth yr oedd yr arwerthwr yn barod i'w ryddhau oedd mai wrth glirio tŷ rhywun yng nghyffiniau Caernarfon y daethant i'r fei. Yn y cyfamser gwnaed rhagor o waith ditectif a llwyddwyd i ganolbwyntio'n fanylach ar ardal Penygroes ac iddynt fod yn eiddo am gyfnod hir i ryw hen wraig a fuasai farw mewn gwth o oedran oddeutu dechrau'r flwyddyn hon. Dyn a ŵyr beth oedd ei diddordeb hi yn y *Gracie* a sut y daeth hi yn berchen arnynt. A fu aelod o'i theulu tybed, tad, gŵr, brawd, ewythr, yn aelod o'i chriw ryw oes? Mae'r ymchwil yn parhau.

Sut bynnag am hynny, mewn cyfnod pan yw'n hiaith a'n diwylliant dan warchae a'n tai a'n tiroedd yn cael eu traflyncu gan wanc anniwall estroniaid, mae o ddirfawr gysur gweld dim ond rhan fechan o'n hetifeddiaeth ambell waith yn cael ei diogelu. A dyna ddigwyddodd yn ocsiwn Morgan Evans yn Y Gaerwen ddiwedd Ebrill eleni. Da iawn chi, Glenys.

O feddwl – er y gwn fy mod yn adleisio pennawd nid anenwog a ymddangosodd yn *Y Cymro* unwaith – choelia' i fyth na fyddai *'O'r Borthwen i'r Borthwen'* wedi bod cystal teitl â'r un i hyn o druth.

[*Rhagflas o lyfr ar fin ei gyhoeddi.*]


**SIOP LYFRAU'R HEN BOST**

45 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog
Ffôn: (01766) 831802

Byddwn yn yr Eisteddfod yn Nhyddewi

*Edrychwn ymlaen at groesawu cyfeillion hen a newydd*